**COFNODION CYFARFOD**

**Dyddiad:** 29 Hydref 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:**

John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Trefnydd y Cynulliad
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Uned Gyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Craig Stephenson, Uned Fusnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Marion Stapelton am ei habsenoldeb. Estynnodd y Dirprwy Lywydd groeso i Mandy Lewis a oedd yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### (i) BC290-02 (Terfynol) Dydd Mawrth15 Hydref 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC303-02 (Drafft) Dydd Mawrth 22 Hydref 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Am nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC303-02 Dydd Mawrth 22 Hydref 2002)

3.1 **Paragraff 3.1** Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a oedd y papur ar ddirprwyo pwerau i Bwyllgor y Ty wedi'i ailgyfansoddi wedi cael ei gwblhau. Roedd yn gobeithio y byddai'r mater yn gallu cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn cyn

toriad y Nadolig.  Dywedodd y Clerc ei fod yn gobeithio cael newyddion ar ei gynnydd erbyn cyfarfod yr wythnos nesaf.

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

(i)  Rheoliadau Addysg (Cymwysterau  a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002 (BC305-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

(ii) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC306-02) *Gweithdrefn a Argymhellir:  Safonol*

(iii) Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (BC307-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

(iv) Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2003 (BC308-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

(v) Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003 (BC309-02) *Gweithdrefn a Argymhellir:  Carlam*

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC305-02 hyd at BC309-02, a oedd yn rhoi cyngor ar sut i drin y gorchmynion hyn, ac yn cytuno ar y weithdrefn a argymhellir ym mhob achos, ar wahân i BC308-02, y gofynnodd Jocelyn Davies i gael trafodaeth arno.

5.1 Nododd y Dirprwy Lywydd fod y ddalen flaen a oedd ynghlwm wrth BC308-02 yn cynnwys mân wall.  Nododd hefyd fod gorchymyn drafft BC309-02 yn cynnwys mân wall.  Dywedodd y Trefnydd y byddai'r rhain yn cael eu diwygio cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau.

**Gan hynny, dyfarnodd y Dirprwy Lywydd na fyddai'n rhaid cyfeirio'r Gorchmynion hyn at bwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol; papurau i'w nodi.**

BC310-02

4.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Trefnydd i'r Aelodau ynghylch defnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) (Diwygio) 2002.

BC311-02

4.4 Nododd y Pwyllgor yr e-bost oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor ynghylch llunio is-ddeddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 28.

**(c) Llythyrau oddi wrth Bwyllgorau; papurau i'w nodi.**

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

BC296-02

5.1Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chytuno ar bapur gan y Clerc ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad yn ystod ymgyrch yr etholiad. Byddai hyn yn cael ei drafod bellach yn y Cyfarfod Llawn.

5.1 Cytunodd y Pwyllgor mai dyddiadau toriad Hanner Tymor 2003 fyddai 17 Chwefror 2003 - 21 Chwefror 2003.

5.1 Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y dyddiadau ar gyfer wythnos y cyfarfodydd olaf cyn cyfnod yr etholiad a chyfarfod cyntaf y Cynulliad wedi'r etholiad. Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn ymgynghori â grwpiau eu pleidiau am y cynigion canlynol: 27 Mawrth a 3 Ebrill; ac y byddent yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor gyda golwg ar ddod i benderfyniad.

5.4 Dywedodd Jonathan Morgan fod Ty'r Cyffredin yn ystyried y mater o ddiwygio'u harferion gwaith. Dywedodd fod y diwygiadau hyn yn cynnwys byrhau toriad yr haf. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gallai mater toriad yr haf y Cynulliad gael ei ystyried yn y dyfodol ac y byddai'n gofyn i'r llyfrgell ddarparu papur briffio ar ddiwygiadau Ty'r Cyffredin.

**6. Y Pwyllgorau**

**7. Busnes arfaethedig**

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC312-02, a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

Dydd Mawrth 29 Hydref 2002

7.2. Dywedodd y Trefnydd nad oedd y cynnig i ethol Aelod newydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gyflwyno. Dywedodd y byddai Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a oedd wedi cael ei ohirio o ddydd Mercher, 23 Hydref 2002 yn cael ei drafod bellach ar 29 Hydref.

Dydd Mercher 30 Hydref 2002

7.3 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar y Strategaeth Faeth.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.4 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Gweinidog am drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau dydd Mawrth 5 Tachwedd, dydd Mawrth 12 Tachwedd a dydd Mawrth 19 Tachwedd.

7.5 Diolchodd Jocelyn Davies i'r Trefnydd am aildrefnu'r ddadl ar gynnig Geraint Davies ar gyfer deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 29.

7.6 Dywedodd Jocelyn Davies fod Plaid Cymru wedi gofyn am ddadl frys o dan Reol Sefydlog 6.9 ar ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.  Dywedodd Jonathan Morgan y byddai'r grwp Ceidwadol yn cefnogi cais o'r fath.

**8. Materion a gyfeiriwyd gan y cyfarfod llawn**

**9. Diwygio Rheolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**